OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

## YMADAEL Â’R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

## DIOGELU’R AMGYLCHEDD, CYMRU

# Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

Mae’r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu’n effeithiol a diffygion eraill sy’n deillio o ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni* *7 Ionawr 2019*

*Gwnaed* *11 Chwefror 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *13 Chwefror 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a deuant i rym ar y diwrnod ymadael.

(**1**) 2018 p. 16.

### Diwygio Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, ym mharagraff (3)(a), ar y diwedd mewnosoder ", neu o dan gyfraith yr UE a ddargedwir(**2**) a wnaeth drosi Cyfarwyddeb 2001/18/EC o ran Cymru.".

(3) Yn lle rheoliad 3 rhodder—

> "**3.**—(1) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at offerynnau'r UE yn gyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn y diwrnod ymadael.
>
> (2) Mae cyfeiriadau at—
>
> (a) yr Undeb Ewropeaidd, neu fel arall at yr ardal y mae'r offeryn hwnnw yn gymwys iddo;
>
> (b) Aelod-wladwriaeth,
>
> mewn unrhyw offeryn gan yr UE y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn yn cynnwys y Deyrnas Unedig.".

(4) Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "neu ledled yr Undeb Ewropeaidd" rhodder ", yn genedlaethol neu yn eu gwasgariad naturiol".

(5) Yn Atodlen 2—

(a) ar ôl paragraff 1 mewnosoder—

> "**1A.** Mae cyfeiriad yn yr Atodlen hon at weithgaredd a awdurdodir, a waherddir, a weithredir neu a reolir yn unol â thrwydded neu gofrestriad o dan Gyfarwyddeb gan yr UE, neu at weithgaredd sy'n ddarostyngedig i drwydded neu gofrestriad o'r fath, yn cynnwys, ar ôl y diwrnod ymadael, unrhyw weithgaredd a awdurdodir, a waherddir, a weithredir neu a reolir yn unol â thrwydded neu gofrestriad o dan unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir a wnaeth drosi'r Gyfarwyddeb honno, neu unrhyw weithgaredd sy'n ddarostyngedig i drwydded neu gofrestriad o'r fath."; a

(b) ym mharagraff 10, yn lle'r geiriau o "Undeb Ewropeaidd" hyd at y diwedd, rhodder "Undeb Ewropeaidd, i mewn iddo neu allan ohono, neu ar ôl y diwrnod ymadael, i mewn i'r Deyrnas Unedig neu allan ohoni, y mae'n

---

(**1**) O.S. 2009/995 (Cy. 81), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) Mae i "cyfraith yr UE a ddargedwir" yr un ystyr a roddir i "retained EU law" yn adran 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

ofynnol cael awdurdodiad ar ei gyfer neu sydd wedi ei wahardd o dan Reoliad (EC) Rhif 1013/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gludo llwythi gwastraff."

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
11 Chwefror 2019